O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L<br>C Y M R U

# 2014 Rhif 2071 (Cy. 206)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) (Diwygio) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau") yn rhagnodi'r symiau sylfaenol a'r symiau uwch y caiff sefydliadau perthnasol godi tâl amdanynt drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser cymhwysol yn unol ag adran 28 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("y Ddeddf"), sef amodau at ddibenion adran 27 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3 yn gwneud mân ddiwygiad i reoliad 3 o'r Prif Reoliadau. Mae'r diwygiad yn darparu bod y symiau sylfaenol a'r symiau uwch a ragnodir gan reoliad 3 yn ddarostyngedig i reoliadau 4-6.

Mae rheoliad 4 yn disodli rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau. Mae rheoliad 4 yn rhagnodi'r symiau sylfaenol a'r symiau uwch mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo'n ofynnol i'r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb ac mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos.

W E L S H   S T A T U T O R Y<br>I N S T R U M E N T S

# 2014 No. 2071 (W. 206)

# EDUCATION, WALES

## The Student Fees (Amounts) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011 ("the Principal Regulations") prescribe the basic and higher amounts which relevant institutions may charge by way of tuition fees for full-time undergraduate qualifying courses in accordance with section 28 of the Higher Education Act 2004 ("the Act"), being conditions for the purposes of section 27 of the Act.

These Regulations amend the Principal Regulations.

Regulation 3 makes a minor amendment to regulation 3 of the Principal Regulations. The amendment provides that the basic and higher amounts prescribed by regulation 3 are subject to regulations 4-6.

Regulation 4 replaces regulation 4 of the Principal Regulations. Regulation 4 prescribes the basic and higher amounts in respect of the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks' attendance and in respect of an academic year of a course of initial training of teachers during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod dau reoliad newydd (5 a 6) sy'n rhagnodi'r symiau sylfaenol a'r symiau uwch ar gyfer cyrsiau rhyngosod ac ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith tramor.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 5 inserts two new regulations (5 and 6) which prescribe the basic and higher amounts for sandwich courses and for study and work placements overseas.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2071 (Cy. 206)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) (Diwygio) 2014

*Gwnaed* *23 Gorffennaf 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *4 Awst 2014*

*Yn dod i rym* *31 Awst 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(6) a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Awst 2014 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011**

**2.** Mae Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011(**3**) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliadau a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 3 yn lle "Yn ddarostyngedig i reoliad 4" rhodder "Yn ddarostyngedig i reoliadau 4-6".

**4.** Yn lle rheoliad 4 rhodder—

(**1**) 2004 p. 8. Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32).
(**3**) O.S. 2011/885 (Cy. 129).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 2071 (W. 206)

# EDUCATION, WALES

## The Student Fees (Amounts) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

*Made* *23 July 2014*

*Laid before the National Assembly for Wales* *4 August 2014*

*Coming into force* *31 August 2014*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 28(6) and 47(5) of the Higher Education Act 2004(**1**), and now exercisable by them(**2**) make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Student Fees (Amounts) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.

(2) These Regulations come into force on 31 August 2014 and apply in relation to Wales.

**Amendment of the Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011**

**2.** The Student Fees (Amounts) (Wales) Regulations 2011(**3**) are amended in accordance with the following regulations.

**3.** In regulation 3 for "Subject to regulation 4" substitute "Subject to regulations 4–6".

**4.** For regulation 4 substitute—

(**1**) 2004 c. 8. There are amendments to section 28 not relevant for the purposes of these Regulations.
(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) S.I. 2011/885 (W .129).

**“Symiau sylfaenol a symiau uwch rhagnodedig ar gyfer blynyddoedd academaidd terfynol penodol cyrsiau a blynyddoedd academaidd penodol cyrsiau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon**

**4.** At ddiben adran 28 o Ddeddf 2004 y swm sylfaenol yw £2,000 a’r swm uwch yw £4,500 mewn cysylltiad â:

(a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo’n ofynnol i’r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;

(b) cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon(**1**) (gan gynnwys cwrs o’r fath sy’n arwain at radd gyntaf), blwyddyn academaidd pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos.”

**5.** Ar ôl rheoliad 4 mewnosoder—

**“Symiau sylfaenol a symiau uwch rhagnodedig ar gyfer cyrsiau rhyngosod**

**5.** At ddiben adran 28 o Ddeddf 2004 y swm sylfaenol yw £800 a’r swm uwch yw £1,800 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod—

(a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos; neu

(b) mewn cysylltiad â’r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser) yn fwy na 30 wythnos.

**Symiau sylfaenol a symiau uwch rhagnodedig ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith tramor**

**6.** At ddiben adran 28 o Ddeddf 2004 y swm sylfaenol yw £600 a’r swm uwch yw £1,350 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor—

(**1**) ‘Hyfforddiant cychwynnol athrawon’ yw hyfforddiant neu addysg â’r nod o baratoi personau, nad ydynt yn athrawon, i fod yn athrawon.

**“Prescribed basic and higher amounts for certain final academic years of courses and academic years of courses of initial training of teachers**

**4.** For the purpose of section 28 of the 2004 Act the basic amount is £2,000 and the higher amount is £4,500 in respect of:

(a) the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks’ attendance;

(b) a course of initial training of teachers(**1**) (including such a course leading to a first degree), an academic year during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks.”

**5.** After regulation 4 insert—

**“Prescribed basic and higher amounts for sandwich courses**

**5.** For the purpose of section 28 of the 2004 Act the basic amount is £800 and the higher amount is £1,800 in respect of an academic year of a sandwich course—

(a) during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks; or

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

**Prescribed basic and higher amounts for study and work placements overseas**

**6.** For the purpose of section 28 of the 2004 Act the basic amount is £600 and the higher amount is £1,350 in respect of an academic year of a course provided in conjunction with an overseas institution—

(**1**) ‘Initial training of teachers’ is training or education with the object of fitting persons, who are not teachers, to be teachers.

(a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos; neu

(b) mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser) yn fwy na 30 wythnos."

(a) during which any periods of full time study at the institution in the United Kingdom are in aggregate less than 10 weeks; or

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution in the United Kingdom (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks."

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

23 Gorffennaf 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

23 July 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2071 (Cy. 206)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) (Diwygio) 2014

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 2071 (W. 206)

## EDUCATION, WALES

The Student Fees (Amounts) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

ISBN 978-0-348-10988-7

9 780348 109887

£4.25

W2071/08/14 ON